**Manyleb y Person ar gyfer Aelodaeth o'r Panel Adolygu Cynnwys yr Asesiadau Personol ym meysydd Darllen (Cymraeg)**

---

## Y cefndir

Mae asesiadau personol darllen a rhifedd yn fandadol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 2-9 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Diben ffurfiannol sydd i'r Asesiadau Personol yn bennaf – i gefnogi addysgu a dysgu – yn hytrach na diben crynodol. Mae ysgolion yn cael data manwl ar lefel dysgwyr, gan gynnwys cryfderau unigol a meysydd i'w datblygu, a ddefnyddir ganddynt i lywio addysg a dysgu ynghyd â'r amrywiaeth o ddata a storir ganddynt yn lleol. Caiff gwybodaeth berthnasol ei rhannu hefyd â rhieni i gefnogi dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr.

Mewn ymateb i adborth gan y sector ynn gofyn am eglurder ac enghreifftiau pellach mewn perthynas ag agweddau ar lythrennedd a rhifedd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adnoddau dysgu proffesiynol i ddarparu mwy o fanylion i ymarferwyr.

Ochr yn ochr â datblygu'r adnoddau hyn, mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried sut y gellir cefnogi rhagor ar ymarferwyr i ddeall a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd da drwy ddatblygu adroddiad Asesiadau Personol newydd.

Er mwyn datblygu'r adroddiad , byddwn yn cynnal ymarfer adolygu cynnwys ar gyfer Darllen (Cymraeg).

Felly, rydym yn ceisio recriwtio 6 ymarferydd sydd â phrofiad perthnasol o addysgu dysgwyr Blwyddyn 6, a 6 ymarferydd sydd â phrofiad perthnasol o addysgu dysgwyr Blwyddyn 7.

**Noder, yn wreiddiol, y bwriad oedd i gynnal y panel hwn 23-24 Ebrill ond roedd angen ei aildrefnu. Bydd ymgeiswyr ar gyfer y dyddiadau gwreiddiol yn cael clywed ar wahân. Nid oes angen i chi ail-ymgeisio.**

## Gofynion

Bydd angen i aelodau'r panel fodloni'r meini prawf canlynol:

Darllen (Cymraeg)

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| • Bod â 3 blynedd a mwy o brofiad o addysgu'r grwpiau blwyddyn perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg (mae croeso i athrawon sydd wedi ymddeol ers 2024 wneud cais hefyd)<br>• Yn gallu dod i ddigwyddiadau adolygu cynnwys yn bersonol ac yn gallu ymrwymo tua 2 diwrnod i'r gweithgaredd hwn | • Profiad blaenorol mewn gweithgareddau gosod safonau<br>• Tystiolaeth o ymgysylltu a bod yn gyfarwydd â nodau'r Cwricwlwm i Gymru a'r camau cynnydd ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad perthnasol (e.e. drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau blaenorol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gyflwyno'r meysydd)<br>• Dealltwriaeth o'r Asesiadau Personol |

**Ymrwymiad amser**
Bydd y panel adolygu cynnwys ar gyfer Darllen (Cymraeg) yn cwrdd wyneb yn wyneb yn Llandudno (lleoliad i'w gadarnhau) ar 8 a 9 Gorffennaf 2026. **Rhaid** i aelodau'r panel allu ymrwymo i ddod i'r 2 ddiwrnod.

**Noder, bydd ymgeiswyr ar gyfer y dyddiadau gwreiddiol yn cael clywed ar wahân. Nid oes angen i chi ail-ymgeisio.**

**Taliad Cydnabyddiaeth**
Bydd aelodau'r panel yn cael eu talu £300 y dydd (gan gynnwys costau teithio a chynhaliaeth). Trefnir llety ar gyfer aelodau'r panel ar wahân, os oes angen.